


Y R E G L W Y S
Y N G N G H Y M R U



T H E C H U R C H
I N W A L E S

Corff Llywodraethol Yr Eglwys yng Nghymru
The Governing Body of The Church in Wales

Pwyllgor Sefydlog

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru drwy Gynhadledd Fideo ar 11 Gorffennaf 2023.

Presennol:

Aelodau Ex-officio

Y Gwir Barchedig Esgob Llanelwy
Y Gwir Barchedig Esgob Llandaf
Mrs Hilary Wiseman, Dirprwy Gadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

Enwebwyd gan Bwyllgorau Sefydlog yr Esgobaethau

Y Parchedig Christine Owen
Mr Paul Whittaker
Y Parchedig Richard Wood
Ms Susan Fogarty
Yr Hybarch Paul Mackness
Mr Tim Llewelyn (Cadeirydd)
Yr Hybarch Rod Green
Dr Heather Payne (Is-gadeirydd)
Y Parchedig John Connell
Dr Jayne Collier
Y Parchedig Justin Davies
Mr Paul Murray

Cyfetholedig

Ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB
Sir Paul Silk

Yn bresennol:

Ysgrifennydd y Dalaith, Swyddog y Corff Llywodraethol, y Rheolwr Llywodraethu a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Archesgob Cymru, Esgobion Tyddewi, Esgob Abertawe ac Aberhonddu a Threfynwy a'r Athro Medwin Hughes, Cadeirydd Corff y Cynrychiolwyr

(Roedd ei Anrhydedd y Barnwr Andrew Keyser CB yn bresennol am ran o'r cyfarfod).

Gweddïau

Offrymwyd gweddi gan yr Hybarch Rod Green.

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod, gan gyfeirio'n benodol at y Parchedig Christine Owen a Mr Paul Murray a oedd yn mynychu eu cyfarfodydd gweithredol cyntaf. Estynnwyd llongyfarchiadau i'r Cadeirydd, sef yr Athro Medwin Hughes ar dderbyn anrhydedd Cadlywydd yr Ymerodraeth Brydeinig yn y rhestr anrhydeddau.

Cofnodion cyfarfod 18-19 Mai 2023

23/22

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18-19 Mai fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw. Fe'u llofnodir ar achlysur arall, ar ôl diwygio un gwall teipio (*sillafiad College*).

Nodwyd papur ar faterion yn codi o'r cofnodion.

Blaenoriaethau, twf a diweddariadau ar gadernid

23/23

Rhoddodd Ysgrifennydd y Dalaith ddiweddariad i'r Pwyllgor Sefydlog ar dri maes o waith parhaus yn ymwneud â thwf, cadernid ariannol a datblygu blaenoriaethau ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru.

Gweithgor Blaenoriaethau

Fel rhan o'r trafodaethau yn y cyfarfod preswyl ym mis Mai, cydnabu'r Pwyllgor Sefydlog yr angen i'r Eglwys yng Nghymru benderfynu ar flaenoriaethau ynghylch pa waith y gellid ei gynllunio a chanolbwyntio arno ar gyfer y dyfodol a gofynnwyd i'r Archesgob ffurfio grŵp bach i ymgymryd â'r gwaith hwn a pharatoi cynigion yn unol â hynny. Trefnwyd i'r Gweithgor Blaenoriaethau gyfarfod mewn cyfarfod preswyl yn Amwythig ar 31 Gorffennaf/1 Awst i fapio ble i ddod o hyd i ffyrdd newydd o gydweithredu, a byddai'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sefydlog.

Roedd aelodau'r grŵp Blaenoriaethau yn cynnwys:

Archesgob Cymru
Yr Athro Medwin Hughes CBE

Esgob Llandaf
 Yr Hybarch Rod Green
 Y Parchedig Justin Davies
 Dr Heather Payne
 Mr Tim Llewelyn

Yn ystod y drafodaeth, tynnwyd sylw at gydweithio â'r Eglwys yng Nghymru yn ehangach a chynyddu amrywiaeth aelodaeth y Gweithgor, materion a fyddai'n cael eu trafod gyda'r Archesgob.

Grŵp Dyrannu Cronfa Twf yr Eglwys

Roedd Grŵp Dyrannu Cronfa Twf yr Eglwys wedi cyfarfod am y tro cyntaf ar 6 Mehefin ac wedi ystyried cynigion ar y meini prawf ar gyfer defnyddio'r Gronfa.

Roedd y Grŵp wedi ystyried y broses ymgeisio ar gyfer defnyddio'r Gronfa, ac roedd proses ymgeisio a deunyddiau ategol Cronfa Ddatblygu esgobaeth Rhydychen wedi creu argraff dda arnynt. Roedd Esgob Rhydychen wedi rhoi caniatâd i'r Eglwys yng Nghymru ddefnyddio'r deunyddiau hyn, gan beri bod modd datblygu'r gwaith yn gynt. Byddai'r Grŵp yn cyfarfod nesaf ar 11 Medi.

Grŵp Adolygu Dosbarthu Cronfeydd

Roedd y Gweithgor Dosbarthu Cronfeydd wedi cyfarfod ddwywaith, ac roedd Pwyllgor Cyllid Corff y Cynrychiolwyr wedi cyflawni gwaith rhwng y cyfarfodydd hynny. Roedd gwaith manwl yn cael ei wneud ar sut y byddai'r Gronfa Ariannu Partneriaethau a Chadernid Strwythurol yn gweithio gyda'i gilydd.

Roedd y dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp yn debygol o fod ym mis Awst neu ddechrau Medi.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y sefyllfa bresennol ar waith y tri Gweithgor.

Materion y Corff Llywodraethol

23/24

Cofnodion Cyfarfod y Corff Llywodraethol Ebrill 2023

Derbyniwyd cofnodion drafft y Corff Llywodraethol ar gyfer Ebrill 2023 i'w cyfieithu a'u dosbarthu i'r Corff Llywodraethol.

Trefn Cyfarfodydd Medi 2023

Rhoddodd y Pwyllgor Sefydlog eu cymeradwyaeth i'r agenda ddrafft ar gyfer cyfarfod y Corff Llywodraethol, i'w gynnal ddydd Mawrth a dydd Mercher 5 a 6 Medi 2023 yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru, yng Nghasnewydd. Bwriad strwythur y bore cyntaf oedd ceisio annog holl aelodau'r Corff Llywodraethol i siarad a chymryd rhan yn y cyfarfod.

Byddai diweddariad ar gynnydd yn cael ei ddarparu ar Gronfa Twf yr Eglwys, y Grŵp Adolygu Dosbarthu Cronfeydd a'r Gweithgor Blaenoriaethau, gyda thrafodaeth grŵp i ddilyn ac yna cyfarfod llawn i fyfyrio ar drafodaethau'r grŵp ar yr ail ddiwrnod.

Nododd y Pwyllgor gwestiynau disgwylidig ar gynrychiolaeth menywod yn yr Eglwys yng Nghymru a gweithgareddau eciwmenaidd rhyngwladol. Nododd y Pwyllgor Sefydlog y byddai agweddau ar eciwmeniaeth rhyngwladol yn cael eu trin yn yr eitem fideo ar faterion eciwmenaidd ac yn unol ag awgrym Esgob Llanelwy cytunodd y Pwyllgor i gynnwys cynnig byr i'r Corff Llywodraethol ei drafod fel rhan o'r eitem.

Nododd Dr Heather Payne y byddai'n gofyn cwestiwn yn ystod y sesiwn Hawl i Holi i ddangos gwaith Comisiwn Gwyddoniaeth y Cyngor Ymgynghorol Anglicanaidd er mwyn ysgogi syniadau am y berthynas rhwng gwyddoniaeth a ffydd.

Nododd y Pwyllgor y byddai Sheran Harper, Llywydd byd-eang Undeb y Mamau yn bresennol ar gyfer y cyfarfod cyfan, ac y byddai'n annerch y Corff Llywodraethol yng nghyd-destun addoli.

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i gynnwys cynnig gyda'r eitem eciwmenaidd, ynghyd â chwestiwn ar Gomisiwn Gwyddoniaeth y Cymundeb Anglicanaidd, a nododd anerchiad Llywydd Undeb y Mamau.

Ar ddiwedd y cyfarfod, byddai gwŷs gan yr Archesgob i adolygu ac i fyfyrio ar agweddau ar y cyfarfod.

Crynodeb

Y Pwyllgor Sefydlog:

- i. Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod Ebrill 2023 y Corff Llywodraethol.
- ii. Cymeradwywyd yr agenda ddrafft ar gyfer cyfarfod Medi 2023 y Corff Llywodraethol.
- iii. Cytunwyd i gynnwys cynnig gyda'r eitem agenda yng nghyfarfod mis Medi ar faterion eciwmenaidd, gydag Esgob Llanelwy yn cadarnhau'r union eiriad.
- iv. Nodwyd y byddai Llywydd Undeb y Mamau yn bresennol yn y cyfarfod ac yn annerch y Corff Llywodraethol.

Lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd 2024 a 2025

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd y Corff Llywodraethol yn 2024 a 2025.

Dyddiau Mercher ac Iau 17 ac 18 Ebrill 2024

Nododd y Pwyllgor Sefydlog ei fod wedi cytuno ar ddyddiadau a lleoliad y Corff Llywodraethol i gyfarfod ym mis Ebrill 2024, a bod Canolfan Gynadledda Rhyngwladol Cymru eisoes wedi'i nodi ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Dyddiau Mercher ac Iau 4 a 5 Medi 2024

Roedd y Pwyllgor Sefydlog eisoes wedi cytuno ar ddyddiadau cyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2024. Nid oedd lleoliad wedi ei gytuno hyd yma.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod staff wedi ymweld â rhai lleoliadau yng Nghymru a allai fodloni'r gofynion ar gyfer cynnal cyfarfod y Corff Llywodraethol, gan gynnwys y dewis o lety a phrydau, neuadd gyfarfod ddigonol gyda chyfleusterau technegol a chlyweled priodol, pa mor hygyrch ydoedd i'r aelodau, a'r gost.

Nodwyd bod y lleoliadau posibl canlynol yn addas ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol:

- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Campws Llambed
- Neuadd y Ddinas Caerdydd
- Venue Cymru Llandudno
- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru

Roedd ystyriaethau o blaid ac yn erbyn y gwahanol leoliadau, ac fe'u trafodwyd gyda'r Pwyllgor Sefydlog.

Nodwyd bod angen i'r Eglwys fod yn ystyriol o'r canlynol:

- Cost y lleoliad a gwerth am arian;
- Pa mor hygyrch a chyfleus yw'r lleoliad;
- Cyfleustra o ran trafnidiaeth gyhoeddus.

Nododd y Cadeirydd bod ganddo fuddiant yn y drafodaeth hon gan ei fod yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Roedd y Pwyllgor yn gytbwys ei farn wrth benderfynu ar leoliad, a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Dalaith yn trafod cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

[Yn dilyn y cyfarfod, cytunwyd mai'r lleoliad ar gyfer cyfarfod Corff Llywodraethol Medi 2024 fyddai campws Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant Llambed. Byddai penderfyniad ar y lleoliad ar gyfer cyfarfod Medi 2025 yn cael ei drafod maes o law.]

Ebrill 2025

Roedd y Pwyllgor Sefydlog eisoes wedi cytuno y dylid archebu Venue Cymru, Llandudno ar gyfer cyfarfod Ebrill 2025, a chadarnhawyd dyddiadau'r cyfarfodydd sef dydd Mercher a dydd Iau 30 Ebrill a 1 Mai 2025.

Medi 2025

Cytunwyd ar ddyddiadau cyfarfod Medi 2025 sef dydd Mercher a dydd Iau 11 a 12 Medi 2025. Byddai lleoliad y cyfarfod yn cael ei ystyried maes o law.

Materion cyfreithiol

23/25

i. Diweddariad yr Adran Gyfreithiol

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ddiweddariad cynhwysfawr gan yr Adran Gyfreithiol.

Diwygiadau cyfansoddiadol ar wefan yr Eglwys yng Nghymru

Roedd y diwygiadau i Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru a wnaed gan y Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2023 wedi'u lanlwytho i wefan yr Eglwys yng Nghymru.

Yn ystod y dyddiau diwethaf roedd gwall yn y Cyfansoddiad wedi'i nodi gan fod Canon a ddiddymwyd yn 2005 heb ei ddileu o Gyfrol II y Cyfansoddiad. Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod hyn wedi'i gywiro.

Is-bwyllgor Drafftio

Nodwyd aelodaeth gyfredol yr Is-bwyllgor Drafftio:

- Mr Arwel Davies (Cofrestrydd Esgobaethol, Tyddewi)
- Y Parchedig Dyfrig Lloyd (Clerig, Esgobaeth Llandaf)
- Mr Mark Powell CB (Canghellor Esgobaethol, Trefynwy)
- Y Parchedig Ruth Rowan (Clerig, Esgobaeth Mynwy)
- Mr Llŷr Williams (Cofrestrydd Esgobaethol, Esgobaeth Llanelwy)

Roedd y Parchedig Ganon Steven Kirk, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Drafftio, wedi ymdeol ddiwedd Mehefin 2023, gan adael lle gwag ar yr Is-bwyllgor a chadair wag.

Gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor Sefydlog ym mis Chwefror ystyried enwau posibl ar gyfer aelod newydd o'r Pwyllgor, yn ddelfrydol naill ai Clerig, neu leygwr *nad yw* mewn rôl Cofrestrydd/Gweinidog, gyda rhywfaint o hyfforddiant neu brofiad cyfreithiol.

Cafodd y Parchedig Rebecca Stevens, clerig a gyflawnodd radd yn y gyfraith cyn ei hordeinio, ei hystyried fel aelod newydd tan ddiwedd y trieniwm presennol.

Ymgynghorwyd hefyd ag aelodau'r Is-bwyllgor ar drefniadau ar gyfer cadeirio. O ystyried bod y trieniwm ar gyfer y Pwyllgor Sefydlog (a'i is-bwyllgorau) yn rhedeg hyd at ddiwedd 2023, roedd aelodau'r Is-bwyllgor wedi awgrymu bod y Parchedig Ruth Rowan yn cael ei phenodi'n Gadeirydd dros dro am weddill y trieniwm. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Sefydlog ystyried cadeiryddion a chyfansoddiad parhaol ei is-bwyllgorau ar ddechrau'r tair blynedd newydd.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod y Parchedig Ruth Rowan wedi bod yn aelod o'r Is-bwyllgor Drafftio ers 2019 a chyn mynd i weinidogaeth ordeiniedig roedd wedi gweithio fel cyfreithiwr.

Ar ôl trafod, penododd y Pwyllgor Sefydlog:

- Y Parchedig Ruth Rowan fel Cadeirydd dros dro yr Is-bwyllgor Drafftio;
- Y Parchedig Rebecca Stevens fel aelod o'r Is-bwyllgor Drafftio.

Cafodd y ddau benodiad eu gwneud tan ddiwedd y trieniwm presennol.

Is-bwyllgor Cyfreithiol

Roedd yr Is-bwyllgor Cyfreithiol wedi cwblhau Barn (dyddiedig 26 Mehefin 2023) i Fainc yr Esgobion ar Bwerau Ymweliadau Archesgobol. Rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei gyhoeddi maes o law, yn debygol fel rhan o adolygiad pwerau cyffredinol Archesgobol y Gweithgor Diwygio Llywodraethu.

Tribiwnlys Disgyblu a Gweithgor Disgyblu

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod un atgyfeiriad wedi bod i'r Tribiwnlys Disgyblu ers ei gyfarfod blaenorol.

Nid oedd unrhyw fater arall gerbron y Tribiwnlys ac ni ddaeth unrhyw achos i'r casgliad y dylid adrodd amdanynt.

Roedd Eglwys Loegr wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer diwygio ei chyfundrefn ddisgyblu cyn y Synod Cyffredinol ym mis Gorffennaf. Ar hyn o bryd roedd swyddogion yn cymharu'r cynigion hynny â darpar-fodelau newydd yr Eglwys yng Nghymru cyn creu'r cynigion terfynol ar gyfer diwygiadau i'w trafod gyda'r Pwyllgor Sefydlog a Mainc yr Esgobion.

Gweithgor Diwygio Llywodraethu

Roedd y Gweithgor wedi cwblhau cyfweiliadau gyda phartïon â diddordeb ar yr adolygiad o bwerau'r Archesgob. Ar ôl cwblhau gwaith yr Is-bwyllgor Cyfreithiol ar y pwnc, byddai ystyriaeth bellach yn digwydd yng nghyfarfod y Gweithgor ddiwedd mis Awst.

Yn dilyn trafodaethau gydag Ysgrifennydd y Dalaith, roedd gwaith ar gyfansoddiad aelodaeth y Pwyllgor Sefydlog wedi cael ei ohirio yn dilyn cyfarfod preswyl strategol diweddar y Pwyllgor Sefydlog. Byddai'r Gweithgor Diwygio Llywodraethu yn aros am gasgliadau'r grwpiau a sefydlwyd gan y cyfarfod hwnnw ynghylch cyfeiriad strategol a chyfansoddiad y Pwyllgor Sefydlog yn y dyfodol cyn gwneud unrhyw argymhellion manwl.

ii. **Mân Ddiwygiadau Cyfansoddiadol – cynigion ar gyfer Corff Llywodraethol Medi 2023**

Trafododd y Pwyllgor Sefydlog bum cynnig ar gyfer newidiadau i'r Cyfansoddiad i'w trafod yn y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2023, a nodwyd un cynnig pellach gan aelod yn unol ag Adran 35 o Bennod II y Cyfansoddiad. Cymeradwywyd nifer o gynigion i'w dwyn gerbron y Corff Llywodraethol fel argymhellion gan y Pwyllgor Sefydlog, yn ymwneud â:

1. Iaith niwtral o ran rhywedd - byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn cael ei awdurdodi i gymeradwyo golygiadau i'r Cyfansoddiad lle disodlwyd iaith niwtral o ran rhywedd.
2. Salwch ac analluogrwydd - byddai cymal 1 o Adran 1.1 o Gyfrol II y Cyfansoddiad yn cael ei ddiwygio fel byddai'r ddarpariaeth yn berthnasol i beriglor nad oedd yn destun Daliadaeth Gyffredin.
3. Cyfarfodydd blynyddol (Cynhadledd Festri a Deoniaeth – byddai dyddiadau terfynol gofynnol ar gyfer cynnal cyfarfodydd Festri blynyddol a chyfarfodydd Cynhadledd Deoniaeth yn cael eu diwygio i 30 Mehefin a 31 Gorffennaf yn y drefn honno.
4. Ad-drefnu canonau sy'n ymwneud â chysylltiadau ag Eglwysi eraill – byddai adran newydd o fewn Cyfrol II o'r Cyfansoddiad yn cael ei chreu i ddarparu ar gyfer y canonau sy'n ymwneud â chysylltiadau ag Eglwysi eraill: o ganlyniad byddai'r canonau yn cael eu dileu o'r man y cânt eu rhestru ar hyn o bryd.

Trafodwyd cynigion arfaethedig a nodiadau esboniadol ar gyfer pob un o'r cynigion priodol a'u cymeradwyo.

iii. Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIOs)

Trafododd ac ystyriodd y Pwyllgor Sefydlog gyfansoddiad templed lle caniateir i ardaloedd gweinidogaeth ffurfio CIO i amddiffyn aelodau unigol rhag y risgiau atebolrwydd sy'n gysylltiedig â bod yn ymddiriedolwyr mewn sefydliad anghorfforedig. Cymeradwywyd templed o gyfansoddiad CIO gan y Gweithgor Diwygio Llywodraethu ac, wedi hynny, gan y Comisiwn Elusennau. Roedd prosiect peilot wedi ei gwblhau.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Pwyllgor Sefydlog i ddychwelyd at y Corff Llywodraethol gyda chynnig i ddiwygio'r Cyfansoddiad i ganiatáu gweithredu CIOs yn ehangach a dod â'r newid i rym.

Cymeradwywyd y dylid cefnogi'r cyfryw gynnis.

iv. Gwelliant ychwanegol

Rhoddyd gwybod i'r Pwyllgor Sefydlog fod Esgob Llanelwy, yn unol ag Adrannau 35 (9) a (10) o Bennod II y Cyfansoddiad, wedi cyflwyno'r cynnis canlynol i ddiwygio Rheoliadau a basiwyd gan y Pwyllgor Sefydlog ym mis Chwefror 2023.

Ym Mhennod V (Rheoliadau) ail-rifo Rheoliad 4.5 fel 4.6 gan ychwanegu:

4.5 Gall Cynhadledd Esgobaethol wneud darpariaeth i ddirprwyo etholiadau i lenwi swyddi gwag achlysurol ar restr Etholwyr Esgobaethol a rhestr atodol ei Phwyllgor Sefydlog. Fel arall, cynhelir etholiadau o'r fath fel y nodir yn Rheoliad 4.4.

Byddai'r cynnis yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod Medi 2023 y Corff Llywodraethol.

v. Adroddiad y Pwyllgor Dethol ar gyfer y Bil i ddiwygio Coleg Ethol yr Archesgob a Cholegau Ethol yr Esgobion

Nododd y Pwyllgor Sefydlog fod y Pwyllgor Dethol a ffurfiwyd mewn perthynas â'r Bil uchod wedi gorffen ei waith. Mae'r Pwyllgor Sefydlog wedi:

- i. Derbyn adroddiad y Pwyllgor Dethol ar y Bil sef diwygio Coleg Ethol yr Archesgob a Cholegau Ethol yr Esgobion.
- ii. Penderfynu, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Dethol, nad oedd y Bil yn 'annadleuol'.
- iii. Penderfynu gosod y Bil ar gyfer dadl yn y cnawd yn ystod sesiwn nesaf y Corff Llywodraethol ym mis Medi 2023.
- iv. Penderfynu cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Dethol i holl aelodau'r Corff Llywodraethol (Pennod II, Adran 29 (1)).

Gofynnodd y Pwyllgor Sefydlog am i adroddiad y Pwyllgor Dethol gael ei gyhoeddi ar-lein cyn gynted ag y bo'n ymarferol, er mwyn ysgogi pobl i fyfyrion ar ei gynnwys cyn cyfarfod y Corff Llywodraethol ym mis Medi.

Diweddariad Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy 23/26

Rhodddwyd diweddariad i'r Pwyllgor Sefydlog gan y Cadeirydd, sydd hefyd yn Gadeirydd Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy, ar y gwaith cyfredol wrth i Grŵp Gweithredu'r Adolygiad ddirwyn i ben, ac roedd yr holl waith wedi'i gwblhau gyda'r nod o atal sefyllfa debyg arall.

Gofynnwyd cwestiwn yng nghyfarfod diwethaf y Corff Llywodraethol am y Siarter Urddas a sut roedd yn berthnasol i waith y Grŵp Gweithredu. Yn benodol, pa waith oedd yn cael ei wneud i sicrhau cynllun gweithredu, llinellau atebolrwydd clir, a phrosesau cadarn ar gyfer ymdrin â chwynion.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor Sefydlog fod y gwaith hwn ar y gweill.

Er i'r Pwyllgor Sefydlog groesawu'r diweddariadau cyson a ddarparwyd drwy gydol ei waith, cytunwyd i ychwanegu diweddariad cynhwysfawr o waith Grŵp Gweithredu Adolygiad Mynwy at Agenda'r Corff Llywodraethol ym mis Ebrill 2024.

Diweddariad Corff y Cynrychiolwyr 23/27

Rhodddwyd diweddariad gan Ysgrifennydd y Dalaith i'r Pwyllgor Sefydlog ar gyfarfod Corff y Cynrychiolwyr a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2023. Ers cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog ym mis Chwefror roedd Corff y Cynrychiolwyr wedi cyfarfod ddwywaith, ar 28 Mawrth a 26 Mehefin.

Ym mis Mehefin, cyfarfu Corff y Cynrychiolwyr â'i archwilydd allanol i adolygu'r archwiliad blynyddol a mabwysiadu adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad. Fel rhan o hyn, mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod â'r archwilydd yn unig, heb unrhyw staff yn

bresennol. Rhoddodd yr archwilydd archwiliad diamod a derbyniwyd adroddiad Canfyddiadau'r Archwiliad gan y Corff Llywodraethol.

Cymeradwyodd Corff y Cynrychiolwyr ddrafftiau o'i adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022 ac adroddiad blynyddol y Gronfa Fuddsoddi Gyffredin hefyd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Bydd y ddwy ddogfen yn cael eu darparu i'r Corff Llywodraethol yn ei gyfarfod ym mis Medi – dim ond yn ddigidol y bydd yr adroddiadau blynyddol ar gael eleni.

Aelodaeth o'r Pwyllgor Diogelu

23/28

Cafodd y Pwyllgor Sefydlog wybod bod dwy swydd wag ar y Pwyllgor Diogelu. Ar hyn o bryd, aelodau'r Pwyllgor oedd:

- Tony Young (Cadeirydd)
- Yr Archddiacon Alan Jevons
- Yr Archesgob (ex-officio fel esgob gyda phortffolio diogelu)
- David Halse
- Laura Howe
- Howard Llewellyn
- (Dwy swydd wag)

Cytunodd y Pwyllgor Sefydlog:

- i. I benodi Siân Gwynn i'r Pwyllgor Diogelu fel aelod llewyg hyd ddiwedd y trieniwm presennol, yn amodol ar DBS boddhaol;
- ii. I nodi'r swydd wag sy'n weddill.

Nodwyd y byddai pwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Diogelu, a gymeradwywyd gyntaf yn 2021 yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Sefydlog yn 2023.

Cynrychiolaeth menywod - diweddariad interim i'r Corff Llywodraethol

23/29

Nododd y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2023 y byddai diweddariad ar ddata esgobaethol yn dychwelyd i'w agenda ym mis Gorffennaf 2023, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r sefyllfa bresennol mewn esgobaethau o ran cynrychiolaeth menywod, er mwyn rhoi diweddariad interim ar y mater i'r Corff Llywodraethol ym mis Medi.

Pan gymeradwyodd y Corff Llywodraethol adroddiad ar Gynrychiolaeth Menywod yn yr Eglwys ym mis Mai 2019, gofynnodd y Corff Llywodraethol am adroddiad pellach yn 2025.

Gofynnwyd i esgobaethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa interim gyfredol / ddiweddaraf.

Nododd y Pwyllgor Sefydlog y wybodaeth a ddarparwyd. Adroddwyd bod esgobaeth Llandaf yn adolygu'r ffordd orau o gynrychioli gwybodaeth am y rhywiau mewn byd sy'n newid, er y byddai'r esgobaeth yn parhau i gasglu ystadegau.

Busnes tybiedig

23/30

Nododd y Pwyllgor Sefydlog dair eitem o fusnes tybiedig:

1. Adroddiad gan Fainc yr Esgobion yn ymwneud â'i gyfarfodydd ym misoedd Ebrill a Mehefin.
2. Adroddiad ar ei aelodaeth ei hun, gan gynnwys newidiadau amrywiol ers ei gyfarfod blaenorol.
3. Adroddiad ar gynnydd tuag at darged yr Eglwys yng Nghymru o fod yn garbon sero-net erbyn 2030.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

23/31

Trafodwyd y cyfarfod a oedd i fod i gael ei gynnal ar 28 Medi. Nodwyd nad oedd gwaith y Gweithgor Blaenoriaethau'n debygol o fod wedi dod i ben erbyn y dyddiad hwnnw. Cytunwyd felly i:

- Ddileu'r cyfarfod strategol ar-lein a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 28 Medi o'r calendr,
- Cynnal y cyfryw gyfarfod ddydd Iau 30 Tachwedd fel cyfarfod yn y cnauld yn Swyddfa'r Dalaith ac nid ar-lein.

Ymddeoliad Esgob Tyddewi

23/32

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor Sefydlog y byddai Esgob Tyddewi yn ymddeol ar 31 Gorffennaf 2023. Diolchodd i'r Esgob am ei chyfraniad sylweddol i waith y Corff Llywodraethol a'r Eglwys yng Nghymru gan ddymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

Gweddi i gloi

Offrymwyd gweddi gan Esgob Llanelwy i gloi'r cyfarfod.